# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Gwasanaethau Cymunedol Integredig / Timau Rhwydwaith Clwstwr Integredig |
| **SWYDD:** | Cynorthwyydd Gwaith Cymdeithasol - Tîm Rhwydwaith Clwstwr Integredig |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR08 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Uwch-ymarferydd Gwaith Cymdeithasol – ICNT neu Weithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol - ICNT |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Gan ddilyn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014), byddwch yn gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, mewn amgylchedd amlddisgyblaethol neu dîm integredig. Byddwch yn gweithio gydag oedolion y mae angen cymorth arnynt i gynnal eu hannibyniaeth a'u llesiant a'u helpu i gyflawni eu canlyniadau y cytunwyd arnynt, yn ogystal â chynorthwyo gofalwyr yn eu rhinwedd eu hunain. O dan oruchwyliaeth ymarferydd cymwys priodol, efallai y byddwch yn gyfrifol am lwyth achosion cymharol fach neu'n gweithio'n uniongyrchol gyda gweithwyr cymdeithasol ar eu hachosion nhw, gan gynnal tasgau fel asesiadau, a chynllunio a threfnu gofal a chymorth, a chymorth i ofalwyr. Byddwch yn gweithio gyda phobl mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau, gan ganolbwyntio ar ‘yr hyn sy'n bwysig’ i bobl a'u cryfderau a'u galluoedd.

Mae'r rôl wedi'i lleoli mewn un o'r tri Thîm Rhwydwaith Clwstwr Integredig, sy'n cefnogi pobl sy'n derbyn gofal a chymorth yn bennaf i gynnal eu hannibyniaeth a'u llesiant. Gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau, byddwch yn canolbwyntio ar ‘yr hyn sy'n bwysig’ i bobl a'u canlyniadau dewisol. Byddwch yn darparu gwybodaeth, cyngor, neu gymorth i gefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u llesiant, neu annibyniaeth a llesiant y person y maent yn gofalu amdano.

Byddwch yn mynd ati i hyrwyddo ein ‘Model Ymarfer sy'n Seiliedig ar Gryfderau- Gweithio i Gyflawni Canlyniadau’.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Efallai y byddwch yn dal llwyth achosion dirprwyedig yn unol â'ch sgiliau a'ch profiad ac yn gyfrifol am hyn; a rheoli a chydlynu unrhyw ofal a chymorth sy'n ofynnol o dan oruchwyliaeth ymarferydd goruchwylio cymwys addas. Efallai y byddwch yn cydweithio â gweithiwr cymdeithasol, neu staff proffesiynol eraill ar achosion penodol; gallai hyn gynnwys bod yn weithiwr a ddyrannwyd eilaidd.
- Byddwch yn cynnal asesiadau o dan oruchwyliaeth ymarferydd cymwys, gan nodi anghenion cymwys, a threfnu gofal a chymorth, lle y bo'n briodol drwy atebion cyffredinol ac wedi'u comisiynu, gan adolygu cynlluniau gofal a chymorth, a chynlluniau cymorth i ofalwyr, yn ôl yr angen. Byddwch yn ymwybodol o asesiadau risg a'u goblygiadau yn eich gwaith achos.
- Byddwch yn gweithio ar y cyd â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, eu teulu, gofalwyr, a chefnogwyr eraill fel y bo'n briodol, i sicrhau bod y canlyniadau a amlinellwyd yn eu cynlluniau gofal a chymorth unigol yn cael eu bodloni'n briodol, gan ganolbwyntio ar 'yr hyn sy'n bwysig' i'r person.
- Byddwch yn gweithio mewn dull partneriaeth integredig ac amlddisgyblaethol, gan weithio gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill mewn ffordd gydgysylltiedig i fynd i'r afael ag anghenion unigolion, eu teuluoedd, a'u gofalwyr, a lle y bo'n briodol cefnogwyr ac asiantaethau eraill, gan gynnwys rhannu gwybodaeth briodol yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gan sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal lle y bo'n bosibl.
- Byddwch yn cynorthwyo ac yn cydymffurfio â Fframweithiau Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad y Gyfarwyddiaeth yn ogystal â gweithio o fewn Polisïau a Gweithdrefnau'r Gyfarwyddiaeth a'r Cyngor.
- Byddwch yn gwybod y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, ac yn ei ddeall a chadw ato, fel sy'n ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r Cod yn rhestr o ddatganiadau sy'n disgrifio'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n ofynnol gan y rhai a gyflogir yn y proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Byddwch yn cadw cofnodion cyfoes ar y ffeiliau electronig, a dogfennau perthnasol fel sy'n ofynnol yn unol â chanllawiau Ymarfer Cofnodi Achosion y Gyfarwyddiaeth.
- Byddwch yn paratoi ar gyfer goruchwyliaeth a chymryd rhan ynddi fel sy'n ofynnol gan bolisi goruchwylio'r Gyfarwyddiaeth. Yn ogystal â goruchwylio, byddwch yn paratoi arfarniadau blynyddol ac yn cymryd rhan ynddynt, gan nodi anghenion datblygu personol a hyfforddiant i gynnal gofynion cofrestru ynghyd â bod yn gyfrifol am eich perfformiad eich hun yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt.
- Byddwch yn ymwybodol o ddyletswydd cydraddoldeb y cyngor ac yn ymrwymedig iddi wrth ddarparu gwasanaethau ymarfer a gofal a chadw at safonau'r Gymraeg, gan gymryd rhan yn y 'cynnig rhagweithiol.'
- Cadw at weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch.

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

# Manyleb y Person

## Cynorthwyydd Gwaith Cymdeithasol – Tîm Rhwydwaith Clwstwr Integredig

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Yes).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso/Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • City and Guilds Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghyd â: Craidd a City and Guilds Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) neu gymhwyster blaenorol NEU<br>• Dystiolaeth o astudio i Safon Uwch/Diploma Lefel 4.<br>• Yn barod i ymgymryd â Chymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol perthnasol ar lefel 4.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gwybodaeth neu brofiad o weithio gyda phobl sy'n cyflwyno gydag anghenion cymhleth ac amlweddog.<br>• Gwybodaeth am bolisi cyfredol, arweiniad statudol a'r Gyfraith fel y mae'n cael ei chymhwyso wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol neu barodrwydd amlwg i ddysgu am hyn.<br>• Profiad o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol/gwirfoddol i hyrwyddo annibyniaeth pobl sy'n defnyddio gwasanaethau.<br>• Profiad o weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br>• Gwybodaeth am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a deddfwriaeth berthnasol arall.<br>• Profiad o lunio adroddiadau a chadw cofnodion.<br>• Gwybodaeth am weithdrefnau diogelu Cymru, neu barodrwydd i ddysgu amdanynt. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gwneud penderfyniadau'n briodol ac yn gymwys gyda chymorth y Rheolwr Tîm, neu ymarferydd goruchwylio cymwys priodol.<br>• Gweithio yn unol â'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.<br>• Gallu rhoi cyngor i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill ar faterion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a/neu gymunedol.<br>• Gallu gweithio'n effeithiol mewn lleoliad amlddisgyblaethol fel aelod o dîm.<br>• Gallu blaenoriaethu'ch gwaith eich hun a chymryd cyfrifoldeb dros reoli llwyth gwaith a pherfformiad.<br>• Sgiliau rhyngbersonol a phobl effeithiol ac yn gallu rheoli a datrys anghydfod mewn ffordd gadarnhaol.<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol, gyda'r gallu i gyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn ogystal â thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth.<br>• Ymroddiad amlwg i gydraddoldeb ac arfer gwrthwahaniaethol a'r gallu i integreiddio polisïau cydraddoldeb yn arfer a chynllunio cefnogaeth.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ymrwymiad i'r 'cynnig rhagweithiol'. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |